# BOB TRO Y MAE PERSON YNG NGHYMRU YN PRYNU CYNNYRCH MASNACH DEG O AFFRICA

**Ydy masnach deg yn gweithio? Ydw i wir yn gallu gwneud gwahaniaeth?**
**A ddylwn i brynu masnach deg? Yr ateb i'r cwestiynau hyn yw ie! Ie! Ac IE!**

Gydag arian gan Lywodraeth Cymru, drwy Hub Cymru Affrica, mae Siopa Teg wedi cydweithio'n agos â rhai o gynhyrchwyr y nwyddau rydym yn gwerthu er mwyn deall sut rydym yn cefnogi cymunedau yn Affrica. Drwy gymharu data ar enillion a chostau byw, rydym wedi darganfod bod masnach deg yn cefnogi unigolion, teuluoedd a chymunedau, nid yn unig i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol, ond yn trawsnewid bywydau a galluogi pobl i ffynnu ac i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae Cardiau o Affrica wedi bod yn cynhyrchu cardiau cyfarch a wnaed â llaw yn Rwanda ers 2003. Mae yna amrywiaeth eang o gynlluniau ar gael ar gyfer pob achlysur, gyda rhai ar gael yn Gymraeg! Mae Cardiau o Affrica yn gweithio gydag oedolion ifanc amddifad i ddarparu cyflogaeth ystyrlon ac urddasol. Mae gwneuthurwyr y cardiau yn ennill mwy nag athrawon, nyrsys a milwyr, a hyd yma, mae 200 o deuluoedd wedi elwa o weithio gyda Cardiau o Affrica.

Er 2009, mae gwerthiant y cardiau yma yn Siopa Teg wedi galluogi gwneuthurwr-cardiau i ennill digon i dalu am:

- 5 mlynedd o addysg ar gyfer un plentyn (gan gynnwys ffioedd, gwisg ysgol, llyfrau a deunydd ysgrifennu)
- 5 rhwyd mosgito
- 15kg o hadau i dyfu bwyd
- 3 offer ffermio
- 241kw o drydan

Gall prynu dim ond un cerdyn wneud gwahaniaeth. Gallai un cerdyn dalu am 1kw o drydan. Gallai dau gerdyn dalu am 1kg o hadau.

**"Roedd fy mywyd yn anodd a doeddwn i ddim wedi gallu gorffen ysgol. Ond ni fydd fy mab yn cael bywyd fel hynny. Bydd yn cael addysg dda a bywyd eithriadol." Florence.**

Er 1993, mae Crefftau Denur wedi galluogi mamau yn Kenya i ennill digon o arian i sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgol. Heddiw, mae 38 o fenywod yn ennill, ar gyfartaledd, £350 y mis drwy gynhyrchu gemwaith, cynnyrch carreg sebon a cherfiadau pren addurnol. Cost anfon un plentyn i'r ysgol am flwyddyn yw £350, felly mae'r menywod yn ennill digon o arian drwy gydol y flwyddyn i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol a mwy. Er 2009, mae Siopa Teg wedi helpu talu am 12.33 mlynedd o addysg.

**“Efallai nad ydych yn ystyried y gwahaniaeth 'rydych chi'n ei wneud. Mae eich siopa wedi gwneud gwahaniaeth mawr i blant yn Kenya a gwerthfawrogir hyn yn fawr.” Leah Mitula, sylfaenydd Crefftau Denur.**

GUMUTINDO ORGANIC WASHED ARABICA UGANDA

Mae Coffi Cydweithredol Gumutindo wedi bod yn cynhyrchu coffi organig masnach deg yn Nwyrain Uganda ers 2004. Gyda 12,000 o aelodau, mae llawer o bobl yn elwa o fanteision masnachu teg. Fel y dywedodd Patrick wrthym, **"Oherwydd masnach deg mae'r rhan fwyaf o'm teulu wedi derbyn addysg. Oherwydd masnach deg, mae gennym dai sefydlog, ysgolion cynradd, canolfannau iechyd; mae gennym ffyrdd gwell a mwy o ddŵr glân."** Rhwng 2012 a 2015, talwyd iddynt bron $1 miliwn mewn premiwm masnach deg, a delir yn ogystal i bris isafswm masnach deg, felly mae'n hawdd gweld sut mae masnach deg yn cael y fath effaith.

**Gallai 55 o bobl sy'n yfed un cwpanaid o goffi'r dydd gynnal ffermwr coffi masnach deg yn Uganda.**

**Mae Gumutindo yn cynhyrchu coffi arbennig a dyfir gan fenywod, sy'n helpu mynd i'r afael â materion anghydraddoldeb.** “Oherwydd 'Menywod yn Tyfu Coffi', yr wyf yn gallu anfon fy mhlant i'r ysgol a mae fy ngŵr a minnau'n trafod beth yw anghenion y teulu cyn penderfynu sut i wario'n arian gyda'n gilydd.” Justine Watalunga.

Fair Do's/Siopa Teg
10 Heol Llandaf Road, Treganna,
Caerdydd.
CF11 9NF
029 2022 2066

info@fairdos.com

Trydar: @fairdoscardiff
Gweplyfr: Fair Do's/Siopa Teg CIC

Fair Do's Siopa Teg

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Hub Cymru Africa